**Bwrdd Trafnidiaeth Cymru**

**Cofnodion cyfarfod 18 Medi 2025**

**A gynhaliwyd yn swyddfeydd TrC, Wrecsam a Teams**

**Aelodau:**

| | |
|---|---|
| Vernon Everitt | Aelod Anweithredol a Chadeirydd |
| Alun Bowen | Aelod anweithredol |
| Louise Cheeseman | Aelod anweithredol |
| Heather Clash | Prif Swyddog Cyllid, Llywodraethu a Gwasanaethau Corfforaethol |
| Vinay Parmar | Aelod anweithredol |
| James Price | Prif Swyddog Gweithredol |
| Peter Strachan | Aelod anweithredol |

**Hefyd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Sam Hadley | Cyfarwyddwr Polisi |
| Ian Lucas | Aelod anweithredol cyswllt |
| Peter McDonald | Arsylwr (Llywodraeth Cymru) |
| Andrew Morgan | Arsylwr (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru) |
| Jeremy Morgan | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Llywodraethu Corfforaethol |
| Katie Timmins | Arsylwr (Cyfarwyddwr Profiad Cwsmeriaid Dros Dro TrC) |
| Seamus Scallon | Cyfarwyddwr Diogelwch a Risg (eitem 2) |
| Ken Skates AS | Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth (eitem 5) |
| Richard Marwood | Cyfarwyddwr y Rhaglen Bysiau (eitem 7) |
| Lee Robinson | Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Trafnidiaeth Ranbarthol ac Integreiddio (eitem 7) |
| Geoff Ogden | Prif Swyddog Cynllunio a Datblygu Trafnidiaeth (eitem 8) |

**<u>Rhan A - Eitemau sefydlog</u>**

### 1a. Gair o groeso gan y Cadeirydd ac ymddiheuriadau am absenoldeb

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a diolchodd i'r Bwrdd am gymryd rhan yn y Diwrnod Datblygu'r diwrnod cynt i drafod sut byddant yn gweithio gyda'i gilydd fel tîm i gefnogi a chraffu ar waith TrC.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Rhian Langham.

### 1b. Hysbysiad ynghylch Cworwm

Gan fod cworwm, croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a datganodd fod y cyfarfod yn agored.

### 1c. Datgan Buddiant

Mae Louise Cheesman yn un o gyfarwyddwyr anweithredol y Go-Ahead Group.

**1d. Cofnodion a chamau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol**

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod Bwrdd TrC a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf 2025 fel cofnod gwir a chywir. Nodwyd y log camau gweithredu.

**1e. Sylw i ddiogelwch**

Atgoffwyd y Bwrdd o'r angen parhaus i roi sylw i fanylion pan fo diogelwch dan sylw. Mae cerbydau trên trydan yn peri mwy o risg na threnau disel pan allai eitemau gael eu gadael ar y to ar ôl gwaith cynnal a chadw. Gellid defnyddio camerâu i fonitro cerbydau trydan wrth iddynt fynd i mewn ac allan o'r depos.

**1f. Sylw i Rhwydwaith T**

Adolygodd y Bwrdd recordiad diweddar o alwad i'r gwasanaethau i gwsmeriaid pan oedd cwsmer yn cwyno am archebu seddi Dosbarth Cyntaf nad oeddent ar gael, nid oedd seddi ar gael yn y dosbarth safonol ychwaith, a bu'n rhaid iddynt sefyll drwy gydol y daith o Crewe i Gwmbrân. [redacted] Gofynnodd y Bwrdd i'r mater o gerbydau ddod yn ôl gerbron y Bwrdd fel rhan o'r sesiwn strategol ar y fflyd sydd wedi'i threfnu ar gyfer cyfarfod mis Hydref. Trafododd y Bwrdd hefyd rôl y rheolwr trenau, y gwelliannau sydd eu hangen i'r Ap, safbwynt polisi ar gadw seddi a'r angen i gasglu data ar ddigwyddiadau o'r fath a'i ddefnyddio i wella gwasanaethau. Cytunwyd i gael trafodaeth ddilynol mewn cyfarfod i'r dyfodol ac i'r Prif Weithredwr benderfynu pa fforwm ddylai archwilio'r mater yn fanylach **[James Price i Weithredu]**.

**2. Perfformiad diogelwch**

Ymunodd Seamus Scallon â'r cyfarfod.

Nododd y Bwrdd gynnwys yr adroddiad ar berfformiad diogelwch. Cafodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am y canlynol:

- Digwyddiadau llithro, baglu a syrthio sy'n cyfrannu fwyaf at niwed corfforol nad yw'n ymwneud â'r gweithlu ar hyn o bryd. Mae gwaith cydweithredol yn parhau gyda'r tîm Cyfathrebu i ddatblygu ymgyrch ddiogelwch arloesol wedi'i chyfeirio at gwsmeriaid i hyrwyddo pwysigrwydd diogelwch.
- Cofnodwyd dau achos o Basio Signalau Stop (SPaD) yn ystod y cyfnod; roedd hwn yn is na'r cyfnod cyfatebol yn 2024/25. Mae'r gweithgor SPaD yn parhau i adolygu gweithredoedd, argymhellion a thueddiadau.
- Mae Ymgyrch Mwy Diogel yr Haf wedi dod i ben erbyn hyn; ei nod oedd cadw cydweithwyr a chwsmeriaid yn ddiogel ar draws y rhwydwaith. Arestiwyd 33 o bobl yn ystod yr ymgyrch a chafodd 200 o bobl eu hatal rhag teithio oherwydd ymddygiad gwael. Cynhaliwyd sesiwn gyda'r Tîm Arwain Gweithredol ar barhad busnes.

Darparwyd diweddariadau hefyd ar ddefnyddio Telemateg Gyrwyr ar gyfer gwasanaethau TrawsCymru, Pullman, Ffeibr a Thrawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd.

Nododd y Bwrdd mai hwn oedd cyfarfod olaf Seamus Scallon. Diolchwyd iddo am ei gyfnod fel Cyfarwyddwr Diogelwch a Risg Dros Dro. Dymunodd y Bwrdd y gorau iddo i'r dyfodol.

**3. Is-gwmnïau**

Roedd cyfarfod diweddar Bwrdd Rheilffyrdd TrC yn canolbwyntio ar berfformiad gweithredol, adolygiad manwl o Fetro De Cymru a pharodrwydd am dymor yr hydref. [redacted]

[redacted]

Nododd y Bwrdd fod y Pwyllgor Enwebiadau wedi cymeradwyo amcanion y Prif Weithredwr ac ailbenodi Dave Happy yn Gadeirydd Ffeibr TrC.

**4. Is-bwyllgorau**

Roedd cyfarfod diweddar y Pwyllgor Profiad a Thwf Cwsmeriaid wedi trafod y strategaeth prisiau, adwerthu a thocynnau, adolygiad lefel uchel o berfformiad a chysylltu â chwsmeriaid, adolygiad o'r ffordd yr ymdrinnir â digwyddiadau, a chynllun yr Uchelgais a'r Her Farchnata pan ddywedodd y pwyllgor nas manteisiwyd yn ddigonol ar bŵer y cyfryngau cymdeithasol. Trafododd y pwyllgor y problemau gyda thoiledau Llinellau Craidd y Cymoedd hefyd. Cytunwyd i friffio'r cadeirydd **[James Price i Weithredu]** a rhoi mwy o ystyriaeth yng nghyfarfod y Bwrdd i'r dyfodol.

Bu cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg ym mis Medi yn trafod eitemau sefydlog ar yr agenda gyda ffocws ychwanegol ar ganfyddiadau adroddiad mewnol ar hyfforddiant gorfodol, deddfwriaeth gwrth-dwyll newydd a'r Bil Data a Defnyddio Newydd.

Bu'r cyfarfod Iechyd, Diogelwch a Chynaliadwyedd diweddar yn canolbwyntio ar ddefnyddio camerâu corff, dangosyddion perfformiad allweddol, materion yn ymwneud â'r cysylltiad â chyfleustodau ar brosiectau seilwaith, Pullman, y rhaglen cymorth i weithwyr, a pharhad busnes.

**5. Ysgrifennydd y Cabinet**

Ymunodd Ken Skates AS (Ysgrifennydd y Cabinet) â'r cyfarfod. Croesawodd Ysgrifennydd y Cabinet 'berfformiad aruthrol TrC' dros y blynyddoedd diwethaf yng nghyd-destun Covid a'r adferiad ar ôl y pandemig, Brexit, newidiadau mewn llywodraeth, a'r gwrthgyferbyniad llwyr rhwng sefyllfa TrC heddiw a lle'r oedd yn 2018. Llongyfarchodd Ysgrifennydd y Cabinet TrC ar bopeth a gyflawnwyd.

Amlinellodd Ysgrifennydd y Cabinet flaenoriaethau TrC ar gyfer gweddill tymor y llywodraeth, yn enwedig o ran masnachfreinio bysiau, rhanbartholdeb, datblygiad parhaus Metro De Cymru, a Rhwydwaith Gogledd Cymru. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod llythyr Ysgrifennydd y Cabinet ato wedi cael ei adlewyrchu yn amcanion y Prif Weithredwr; a bod cyfarfodydd bwrdd yn cael eu trefnu ym mhob Cyd-bwyllgor Corfforedig. Roedd y Bwrdd yn obeithiol bod gan TrC yr adnoddau a'r ffocws strategol i barhau ar drywydd cadarnhaol.

Trafododd Ysgrifennydd y Cabinet a'r Bwrdd nifer o eitemau yn fanylach, gan gynnwys yr angen am agwedd uchelgeisiol at fysiau a sicrhau bod pobl Cymru yn gweld manteision masnachfreinio bysiau. Trafododd y Bwrdd fanteision torri cylch y drefn gyllido flynyddol gan ganolbwyntio ar setliadau cyllid a chyfalaf aml-flwyddyn ar gyfer TrC a chael un llinell gyllido. Cytunwyd y byddai TrC yn datblygu cynnig i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru **[Heather Clash i Weithredu]**. Trafododd y Bwrdd hefyd fanteision cael ffocws rhanbarthol gyda'r cwsmer yn ganolog iddo; a chysylltiadau â materion polisi ehangach fel cynhwysiant cymdeithasol a gwelliannau economaidd.

Diolchodd Ysgrifennydd y Cabinet i TrC am fod yn 'esiampl wych o sut i gyflawni a gwasanaethu yng Nghymru' a gadawodd y cyfarfod.

**6. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol**

Cafodd y Bwrdd drosolwg o Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol:

- Ar hyn o bryd mae angen delio â diffyg ariannol o tua £5 miliwn y flwyddyn hyd yma o ran incwm rheilffyrdd o'i gymharu â'r targed o £202 miliwn, yn rhannol oherwydd y seilwaith sydd ar gael ac yn rhannol oherwydd bod y capasiti'n llai na'r hyn y bwriedir iddo fod. Roedd y Bwrdd yn cydnabod bod sawl mis ar ôl o hyd i gywiro'r diffyg a thrafododd fesurau lliniaru gan gynnwys adfywio gweithgarwch marchnata drwy ddefnyddio data'n fwy effeithiol, defnyddio'r tanwariant posibl mewn costau staff a gwella'r perfformiad gweithredol ymhellach. Bydd papur ar effeithiolrwydd marchnata yn cael ei rannu â'r Bwrdd **[James Price i Weithredu]**.

[redacted]

- Trafododd y Bwrdd yr angen i wneud prosiectau TG yn fwy masnachol. Cytunodd y Bwrdd y bydd Vinay Parmar yn arwain sesiwn i ddeall yr achosion sylfaenol, y blaenoriaethau a'r eitemau sy'n hanfodol i'r genhadaeth sy'n denu refeniw **[Vinay Parmar a Heather Clash i Weithredu]**.

**7. Sesiwn strategol - bysiau**

Roedd y Bwrdd wedi gofyn am gael defnyddio'r cyfarfod hwn i roi ffocws strategol ar fasnachfreinio bysiau fel rhan o'i ffyrdd newydd o weithio lle byddai'r Bwrdd yn gofyn am sicrwydd gan y Bwrdd Gweithredol ar y materion strategol mwyaf. Cytunwyd y bydd cyfarfod mis Hydref yn canolbwyntio ar fflyd trenau TrC.

**7a. Model gweithredu**

Trafododd y Bwrdd 'gyflwr terfynol' arfaethedig ynghylch sut bydd TrC yn gweithredu fel Un Tîm i gyflawni ei gylch gwaith bysiau. Cydnabu'r Bwrdd yr angen am arbenigedd gweithredol ac i ddeall rôl a chyfrifoldebau'r gweithredwyr a fasnachfreiniwyd.

Rhoddwyd sicrwydd i'r Bwrdd ynghylch y cyflwr terfynol a ddymunir, ond mae angen gweithio ar sut i gyrraedd yno. Rhoddodd y Prif Swyddog Gweithredol sicrwydd bod masnachfreinio bysiau a gweithrediadau'n cael eu hintegreiddio'n llawn yn y ffordd mae TrC yn cael ei strwythuro a'i weithredu.

**7b. Cyllid masnachfreinio bysiau**

Trafododd y Bwrdd bapur ar gyllid masnachfreinio bysiau. Roedd y Bwrdd wedi gofyn am y papur hwn o ystyried natur gymhleth iawn sut mae gwasanaethau bysiau'n cael eu hariannu yng Nghymru a gyda'r bwriad o ganfod yn fuan yr holl faterion sy'n dal heb eu setlo rhwng TrC, Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol o safbwynt cyllid. Cytunwyd y dylid cofnodi statws y materion hyn sydd angen sylw gan greu cynllun i ddelio â nhw **[Heather Clash i Weithredu]**.

Trafododd y Bwrdd y canlynol:

- [redacted]
- Y risgiau sy'n gysylltiedig â bod yn berchen ar fflyd a bod TrC yn berchen ar y fflyd bresennol drwy gynllun 'prynu'n ôl'. Cytunwyd bod angen ymchwilio ymhellach i hyn **[Lee Robinson i Weithredu]**. [redacted]
- Pwerau i gynnig consesiynau. Nododd y Bwrdd mai awdurdodau lleol ac nid Llywodraeth Cymru sydd â'r pŵer i gynnig consesiynau ac y byddai angen dirprwyo neu gyfarwyddo awdurdodau lleol er mwyn newid hynny. Cytunwyd i ymchwilio'n fanylach, ceisio cyngor cyfreithiol os oes angen ac ymchwilio i faterion posibl sy'n ymwneud â chymorthdaliadau traws-ranbarthol **[Lee Robinson i Weithredu].**
- Pwysigrwydd defnyddio dull gweithredu tair-ochrog yn y cyfnod sy'n arwain at fasnachfreinio bysiau sy'n cynnwys Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol a Trafnidiaeth Cymru.
- Yr angen am fecanweithiau adolygu rhwydweithiau lleol sy'n caniatáu i rwydweithiau dyfu'n organig ac yn hyblyg.
- Blwch arian tocynnau ac ail-fuddsoddi arian dros ben gan awdurdodau lleol tra bydd TrC yn rheoli'r gyllideb gyffredinol.
- Costau swyddogaethau swyddfa gefn, lle mae angen gwneud rhagor o waith i ddeall y costau posibl **[Lee Robinson i Weithredu].**

Dywedwyd mai un o'r ystyriaethau allweddol yw rhoi sicrwydd ariannol ynghylch y buddsoddiad presennol yng ngwasanaethau bysiau awdurdodau lleol.

Cytunodd y Bwrdd y dylid cyflwyno fersiwn wedi'i diweddaru o'r papur cyn diwedd y flwyddyn **[Lee Robinson i Weithredu]**. Mynegodd y Bwrdd yr angen i fod mor sicr ag y gall fod ynghylch y materion hyn cyn dyfarnu unrhyw gytundebau masnachfraint.

### 7c. Cwestiynau am y polisi bysiau sydd heb eu hateb

Bu'r Bwrdd yn ystyried papur a oedd yn crynhoi sut bydd TrC yn cyflawni swyddogaethau ei gylch gwaith bysiau, gan gynnwys ei ddull gweithredu cyffredinol, cyflwyno, diogelwch, contractau, prisiau, datblygu'r rhwydwaith, depos, y fflyd, ymgysylltu â'r cyhoedd, seilwaith, cyllid, bwrdeistrefi a'r gweithredwr dewis olaf. Gofynnodd y Bwrdd i'r holl eitemau polisi sy'n weddill gael eu cofnodi ac i lwybr gael ei gyflwyno i sicrhau'r Bwrdd eu bod yn cael sylw'n brydlon er mwyn sicrhau eglurder **[Lee Robinson i Weithredu]**.

Trafododd y Bwrdd y dull gweithredu o safbwynt bwrdeistrefi a chawsant y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith diwydrwydd dyladwy sydd wedi dechrau gyda Newport Bus. Bydd papur sy'n darparu rhagor o fanylion yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd **[Lee Robinson i Weithredu]**. Trafododd y Bwrdd hefyd integreiddio ac ymgysylltu'n barhaus ag awdurdodau lleol.

### 8. Cynllun busnes Gwasanaethau Arloesi TrC

Cymeradwyodd y Bwrdd gynllun busnes Gwasanaethau Arloesi TrC ar gyfer 2025/26. Cafwyd trafodaeth ar ddyfodol y gyd-fenter a rhoddwyd ystyriaeth i sawl opsiwn gan gynnwys opsiynau nad oes gofyn iddynt gael

strwythur corfforaethol. Bydd cynigion yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd cyn bod angen gwneud penderfyniad ym mis Tachwedd **[Geoff Ogden i Weithredu]**.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb a oedd yn bresennol am eu cyfraniadau, a daeth y cyfarfod i ben.